Breast Screening

Bron-Brawf Cymru Breast-Test Wales

Don't ignore your breast screening, it could save your life.

Key messages:

- Breast screening reduces your risk of dying from breast cancer.
- Women aged 50 to 70 are invited for a breast X-ray every three years. Women over the age of 70 can ask for a screening appointment.
- Screening can find cancers when they are too small to see or feel. Finding and treating cancer early gives you the best chance of survival.
- Breast screening is a free NHS test that is carried out at screening centres and accessible mobile units across Wales.
- If you notice a change in your breasts, visit your GP immediately.
- Screening will miss some cancers, and some cancers cannot be cured.
- Taking part in breast screening is your choice. Read the information leaflet carefully to help you make your decision.

More information:

- When we are screening women from your GP practice, we will send you an appointment letter. You will receive your first invitation before your 53rd birthday.
- A breast X-ray test called a mammogram is used to look for signs of cancer. Your breasts are pressed between the plates of an X-ray machine for a few seconds. The pressure is needed to get good images using a low dose of radiation. Your test will be carried out by a specially trained female member of staff.
- Some women find that having a mammogram is uncomfortable and a few women may find it painful, but the discomfort passes quickly.
- For most women the results are normal. If changes are seen on your X-ray you may need more tests including a breast examination, more X-rays or ultrasound scans. You may also have a biopsy where a very small sample is taken from your breast with a needle.
- Sometimes breast screening can pick up cancers that would never have caused harm. This means that some women are treated for breast cancer even though that cancer would never be life-threatening.

What you can do:

- Take part in screening every three years, even if you have had a previous normal result.
- Get to know how your breasts normally look and feel. If you notice any changes it is important that you visit your GP.
- Breast cancer can run in families. If you are worried about your risk speak to your GP.

To find out more:

Visit www.breasttestwales.wales.nhs.uk or speak to your GP.

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Peidiwch ag anwybyddu eich prawf sgrinio'r fron, gallai achub eich bywyd.

Y negeseuon pwysig:

- Mae sgrinio'r fron yn lleihau eich risg o farw o ganser y fron.
- Bydd merched sydd rhwng 50 a 70 oed yn cael eu gwahodd am brawf pelydr-X o'u bronnau bob tair blynedd. Gall merched sy'n hŷn na 70 oed ofyn am apwyntiad i gael prawf sgrinio.
- Mae sgrinio'n gallu dod o hyd i ganserau sy'n rhy fach i'w gweld neu deimlo. Dod o hyd i ganser yn y camau cynnar a chael triniaeth yn brydlon sy'n cynnig y cyfle gorau o wella o'r clefyd.
- Mae'r prawf sgrinio'r fron ar gael am ddim drwy'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol, mewn canolfannau sgrinio ac unedau teithiol hawdd mynd iddyn nhw ar hyd a lled Cymru.
- Os byddwch yn sylwi ar newid yn eich bronnau, ewch at eich meddyg teulu ar unwaith.
- Bydd sgrinio'n methu rhai achosion o ganser, ac mae'n amhosibl gwella rhai mathau o ganser.
- Chi sydd i ddewis a fyddwch yn cymryd rhan yn y broses sgrinio. Ewch ati i ddarllen y daflen wybodaeth yn ofalus i'ch helpu i benderfynu.

Mwy o wybodaeth:

- Pan fyddwn yn sgrinio'r merched o bractis eich meddyg teulu, byddwn yn anfon apwyntiad atoch drwy lythyr. Byddwch yn cael eich gwahoddiad cyntaf cyn eich pen-blwydd yn 53 oed.
- Mae'r prawf yn golygu defnyddio pelydr-X o'r enw mamogram i chwilio am arwyddion o ganser. Bydd eich bronnau'n cael eu gwasgu rhwng platiau peiriant pelydr-X am rai eiliadau. Mae gofyn pwyso er mwyn cael delweddau da gan ddefnyddio dos isel o ymbelydredd. Aelod o'r staff sy'n ferch ac sydd wedi cael ei hyfforddi'n arbennig fydd yn gwneud eich prawf.
- Mae rhai merched yn teimlo bod cael mamogram yn anghyfforddus a bydd rhai merched yn dweud ei fod yn boenus, ond bydd y teimlad anghyfforddus yn diflannu'n gyflym.
- Bydd y mwyafrif o ferched yn cael canlyniadau normal. Os bydd newidiadau i'w gweld ar eich pelydr-X efallai byddwch angen mwy o brofion a fydd yn cynnwys archwiliad o'r fron, mwy o belydrau-X neu sganiau uwchsain. Efallai byddwch hefyd yn cael biopsi sy'n golygu defnyddio nodwydd i dynnu sampl fach iawn o'ch bron.
- Gall y prawf sgrinio'r fron ddod o hyd i ganserau weithiau na fyddai byth wedi achosi unrhyw niwed. Mae hynny'n golygu y bydd rhai merched yn cael triniaeth at ganser y fron er na fyddai'r canser hwnnw byth wedi peryglu eu bywydau.

Y pethau y gallwch eu gwneud:

- Ewch i gael eich prawf sgrinio'r fron bob tair blynedd, hyd yn oed os ydych wedi cael canlyniad normal yn y gorffennol.
- Dysgwch sut mae'ch bronnau'n edrych ac yn teimlo fel arfer. Os byddwch yn sylwi ar unrhyw newidiadau mae'n bwysig eich bod yn mynd at eich meddyg teulu.
- Mae canser y fron yn gallu rhedeg yn y teulu. Os ydych yn poeni am eich risg ewch at eich meddyg teulu i drafod y mater.

I ddysgu mwy:

Ewch i www.breasttestwales.wales.nhs.uk neu siaradwch â'ch meddyg teulu.

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales